# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**ADRAN:** Ysgol Gynradd Pencoed

**SWYDD:** Athro/Athrawes ADY

**GRADD Y SWYDD:** Graddfa Gyflog Athrawon ynghyd â Phwynt AAA

**YN ATEBOL I:** Y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Cynnal dyletswyddau proffesiynol yr Athro/athrawes yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol a darpariaethau statudol perthnasol eraill.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Datblygu perthnasoedd cadarnhaol â'r holl randdeiliaid, gan gynnwys plant, staff, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach.
- Darparu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau i blant sy'n berthnasol i'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion yn eu cyfnod presennol.
- Cynllunio a pharatoi gwersi a dilyniannau gwersi ysbrydoledig a difyr sy'n sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd dros amser.
- Dewis a pharatoi adnoddau o ansawdd, gan ystyried diddordebau plant a'u hanghenion dysgu.
- Meithrin amgylchedd dysgu cynhwysol a meithringar lle gall pob disgybl ffynnu.
- Dangos ymrwymiad i ymgysylltu â theuluoedd a chyfrannu at waith ymgysylltu helaeth â theuluoedd yr ysgol.
- Rhoi adborth rheolaidd, adeiladol sy'n cefnogi plant i wneud cynnydd, gan ystyried eu mannau cychwyn gwahanol.
- Gwahaniaethu addysgu i ddiwallu anghenion yr holl blant, gan ystyried diddordebau a phrofiadau amrywiol disgyblion.
- Cynllunio ar gyfer defnyddio staff cymorth.
- Cyfrannu at asesu, cofnodi ac adrodd ar bresenoldeb, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion a chadw cofnodion o'r fath fel sy'n ofynnol gan systemau'r ysgol.
- Monitro cynnydd disgyblion a chyfathrebu'n effeithiol â rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.
- Cyfrannu at ddatblygu ac adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) yn unol â Chod ADY Cymru.

- Gosod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad plant. Darparu amgylchedd i blant lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, eu parchu, yn ddiogel a lle mae eu cyflawniadau a'u cyfraniadau yn cael eu gwerthfawrogi a'u dathlu.
- Cydweithio ag athrawon dosbarth yn ein 4 canolfan adnoddau dysgu, dosbarthiadau prif ffrwd, cynorthwywyr addysgu, ac asiantaethau allanol.
- Chwarae rhan lawn ym mywyd cymuned yr ysgol a chyfrannu at fywyd ehangach yr ysgol.
- Diogelu plant ar safle'r ysgol a phan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awdurdodedig mewn mannau eraill.

## DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

### Iechyd a Diogelwch
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

### Cyfle Cyfartal
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

### Diogelu
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

### Adolygiad a Hawl i Amrywio
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a’ch gradd.

## GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodi troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Athro/Athrawes ADY

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy)

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Cymhwyster addysgu perthnasol.<br>• Cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.<br>• Ymrwymiad amlwg i ddatblygiad proffesiynol parhaus | Ydy<br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad a/neu ddiddordeb cryf, amlwg mewn darpariaeth ADY<br>• Dealltwriaeth dda o'r cod ADY a'i oblygiadau ar gyfer ysgolion/dysgwyr<br>• Ymrwymiad amlwg i gynhwysiant<br>• Gwybodaeth ymarferol dda am y Cwricwlwm i Gymru<br>• Dealltwriaeth drylwyr o brosesau a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant<br>• Gwybodaeth a phrofiad o weithredu dulliau sy'n cael eu llywio gan ymchwil, | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirdaon a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | arloesol o addysgu a dysgu | | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu creu amgylchedd dysgu hapus, meithringar a chynhwysol<br>• Llawn cymhelliant, gan fynd at i'n gyson i ddangos disgwyliadau uchel o'ch hun ac o gyflawniadau, ymddygiad a dysgu plant<br>• Gallu sefydlu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda phlant, rhieni a gofalwyr, aelodau o'n Corff Llywodraethu a'n cymuned ehangach<br>• Ymrwymiad i ddarparu profiad cwricwlaidd ac allgyrsiol cyfoethog i ddisgyblion<br>• Hyblygrwydd wrth weithio fel rhan o dîm<br>• Sgiliau rhyngbersonol da<br>• Sgiliau trefnu da | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Ffurflen gais, cyfweliad a phroses ddethol. |
| | • Sgiliau cyfathrebu da ar lafar ac yn ysgrifenedig | Ydy | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Sgiliau TGCh effeithiol a hyder wrth ddefnyddio technolegau sy'n dod i'r amlwg yn yr ystafell ddosbarth<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy | |